**CYNGOR CYMUNED LLANRUG COMMUNITY COUNCIL**
**Clerc / Clerk: Mr Meirion Jones PSLCC**
**7 Nant y Glyn**
**Llanrug**
**Gwynedd**
**LL55 4AH**
**☎ 07769 112875**
**clerc@llanrug.cymru**

**Cofnodion o gyfarfod llawn Cyngor Cymuned Llanrug a gynhaliwyd am 7:00yh 20 o Ebrill 2021 drwy Zoom**

**Presennol:** Y Cynghorwyr Phillip Roberts (Cadeirydd), Avril Jones (Is-gadeirydd), Goronwy Hughes, Iola Parry, Alan Pritchard, Hefin Jones, Cemlyn Jones, Haf Williams, Dylan Jones, Beca Brown

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Martin Jones, Meirwen Lloyd, Richard Robinson

**Hefyd yn bresennol**: Y Cynghorydd Berwyn Parry Jones (Aelod dros Cwm y Glo ar Gyngor Gwynedd)

**Clerc:** Meirion Jones

**783. I dderbyn croeso gan y Cadeirydd**

Estynnwyd croesi cynnes i bawb i'r cyfarfod

**784. Derbyn ymddiheuriadau.**

Derbyniwyd ymddiheuriadau fel a nodwyd uchod

**785. Datgan buddiant personol.**

Rhain i'w cofnodi fel yn briodol

**786. Cadarnhau cofnodion cyfarfod 16 Mawrth 2021**

Cadarnhawyd y cofnodion yn gywir ac fe'i arwyddwyd gan y Cadeirydd

**787. I dderbyn unrhyw sylwadau yn codi o'r cofnodion.**

Dim ond fod nifer o faterion ar agenda heno

**788. I dderbyn adroddiad gan Bwyllgor y Fynwent.**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Hefin Jones (Cadeirydd Pwyllgor y Fynwent) fod y pwyllgor wedi cyfarfod ac ymysg y materion a drafodwyd ac a argymhellwyd i'r cyngor oedd:-

- Fod y broses i ddigideiddio'r manylion y fynwent bron iawn wedi ei gwblhau;
- Codi ffioedd y fynwent ar gyfer 2021/2022 5%
- Fod y nifer o boteli plastig gwag yn cynyddu ac beth sydd yn digwydd pan fo'r nifer yn cynyddu'n sylweddol ydi fod y Cynghorydd Hefin Jones yn eu casglu, eu storio adref hyd nes bydd yn mynd i'r ganolfan ail-gylchu. Yn sgil hyn, penderfynwyd tynnu'r biniau glas ail gylchu o'r fynwent ac rhoi arwydd i fyny yn gofyn i bobl fynd a'i sbwriel gartref i'w ailgylchu
- Nodwyd fel rhan o'r broses ddigideiddio, mae angen adnabod darnau o'r fynwent. E.e. blociau A,B,C ayyb ac fod hyn ar y gweill.
- Adroddwyd fod cwyn wedi dderbyn am gyflwr y fynwent ar ôl torri gwair. H.y. fod gwair ar hyd cerrig beddi a penderfynodd y pwyllgor drefnu cyfarfod gyda'r sawl sydd yn torri gwair i weld beth gellir ei wneud am y broblem.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**789. I dderbyn diweddariad ar y broses o asesiad risg ers cyfarfod o Bwyllgor y Fynwent**

Adroddwyd fod y broses yn cymryd lle a bydd adroddiad llawn yn dod mae o law.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**790. I dderbyn diweddariad gan y pwyllgor Hamdden a Mwynderau.**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Cemlyn Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Hamdden a Mwynderau fod y pwyllgor wedi cyfarfod ac fe gytunwyd a'r canlynol;

- Bod llawer o ofyn am ddiwrnod casglu sbwriel ond oherwydd y pandemig nid oedd wedi bod yn saff i'w gynnal. Roedd y cadeirydd wedi bod mewn cysylltiad a Cadw Cymru'n Daclus i holi beth oedd ei argymhelliad hwy ond doedd neb ar gael. Adroddwyd byddai angen cario allan asesiad risg cyn gallu trefnu dyddiad.
- Nodwyd fod siglen wedi torri ar gae chwarae Pwll Moelyn ac fod hon yn mynd i'w adnewyddu.
- Adroddwyd fod y pwyllgor wedi cytuno ar oleuadau Nadolig ar gyfer 2021.
- Fod taflenni asesiad risg yr offer campfa tu allan wedi rhannu a gobeithir creu rota i bawb gario allan asesiad risg. Nodwyd bydd angen cadw copi o'r asesiad ar ffeil fel tystiolaeth ei fod yn cael ei wneud yn wythnosol.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**791. I dderbyn adroddiad am gwynion yn ymwneud a Iechyd a Diogelwch (pwyllgor ddim wedi cyfarfod yn ffurfiol hyd yn hyn).**

Adroddwyd gan y Cadeirydd fod nifer o faterion dan sylw ar hyn o bryd, er nad oedd y pwyllgor wedi cyfarfod ond ymysg y materion oedd angen sylw

- Angen creu polisi ar gyfer gweithwyr sydd yn gweithio ar ben ei hunain. Hyn yn holl bwysig nawr ar gyfer aelodau, staff a contractwyr sydd yn gwneud gwaith i'r cyngor.
- Angen adolygu'r Rheolau Sefydlog i ystyried oblygiadau Iechyd a Diogelwch
- Bydd angen adolygu trefniadau ymweliadau gan unigolion pan yn cario allan eu dyletswyddau ar ran y cyngor ar ben eu hunain
- Bydd y pwyllgor yn adolygu asesiad risg ar gyfer y fynwent ac yn ei addasu fel yn briodol
- Trefnu cyfarfod o'r pwyllgor

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**792. I dderbyn adroddiad gan y Pwyllgor Bwyd.**

Dim wedi cyfarfod yn ystod y mis diwethaf

**793. I dderbyn adroddiad gan y Pwyllgor Cyllid**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Avril Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid fod y pwyllgor wedi cyfarfod ac ymysg y materion a drafodwyd oedd

- Parhau i geisio codi arian o elusen 'Llanrug Poor House'
- Cytunodd y Cynghorydd Goronwy Hughes i newid trefniadau ar gyfer ymddiriedolwyr elusen Fawnog Rhydd fel fod aelodau'r cyngor i gyd yn ymddiriedolwyr
- Dim wedi ethol is-gadeirydd i'r pwyllgor am aros tan ar ôl cyfarfod blynyddol mis Mai

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**794. I dderbyn adroddiad gan y Cynghorydd Berwyn Parry Jones aelod dros Cwm y Glo ar Gyngor Gwynedd.**

Gwyliau y Pasg wedi bod felly y Cyngor wedi bod yn ddistaw. Hefyd rydym mewn cyfnod purdah lle does dim byd a gall cael ei weld yn wleidyddol ac o bosib yn cefnogi yr un ymgeisydd neu'r llall yn etholiad y Senedd yn cael ei gyhoeddi.

**Swydd y Prif Weithredwr**

Erbyn hyn mae'r cyfweliad am Brif Weithredwr wedi bod, ac fydd yr ymgeisydd llwyddiannus os oes un, yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn pnawn dydd Gwener am gymeradwyaeth.

**Nodyn ar Ôl y Pwyllgor** – Dafydd Gibbard o Llanrug wedi ei benodi yn Brif Weithredwr

**Pwyllgor Craffu Cymunedau**

Adroddiad ar defnydd o Tân Gwyllt – poeni am effaith sŵn ar anifeiliaid. Yn anffodus does gan y Cyngor ddim llawer o bwerau i rhwystro defnydd o tân gwyllt ar unrhyw amser, ond yn parhau i annog trefnwyr i fod yn gyfrifol ac i sicrhau eu bod yn codi ymwybyddiaeth o unrhyw ddigwyddiad, fel fod pobol yn gallu cymryd camau i warchod eu anifeiliaid.

Adroddiad ar Wasanaeth Gwarchod y Cyhoedd – Y gwasanaeth yma sydd wedi bod yn arwain ymateb y cyngor i'r pandemig, wedi creu gwasanaeth newydd Track and Trace, ac wedi bod yn brysur yn ceisio sicrhau fod pawb yn dilyn y rheolau clo, fel roeddent yn newid. Oherwydd hyn wrth gwrs mae'r gwaith ddydd i ddydd wedi gorfod llithro. Felly mae angen uchafu capasiti y gwasanaeth er mwyn gallu rhoi gwasanaeth teilwng ar gyfer gwarchod iechyd a lles cymunedau Gwynedd. Bydd adroddiadau pellach yn dod ymlaen i ddangos y camau fydd ei angen cymryd.

**795. I dderbyn adroddiad gan y Cynghorydd Beca Brown, aelod dros Llanrug ar Gyngor Gwynedd**

Nodwyd mai dim ond newydd ei ethol roedd y Cynghorydd Beca Brown ar Gyngor Gwynedd, felly dim adroddiad ar gael.

**796. I dderbyn adroddiad gan gynrychiolydd y cyngor ar Fwrdd Llywodraethwyr Ysgol Gynradd Llanrug**

Adroddwyd nad oedd cyfarfod wedi gynnal ers cyfarfod diwethaf o'r cyngor

**797. I ystyried cais a dderbyniwyd am greu giât ar gyfer unigolion sydd angen mynd i gae chwarae tu cefn i ystâd Dolafon. Ar hyn o bryd un giât fawr sydd yna. (Cynghorydd Alan Pritchard)**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Alan Pritchard fod cais wedi dod i newid y giât cefn ar gae chwarae Dolafon i alluogi pram fynd drwy'r giât. Nodwyd mai giât lawn sydd yno nawr ac mae honno wedi chloi.

**Penderfynwyd:** Symud ymlaen ar gyfer newid i giât fel ei bod yn bosib mynd a pram drwyddi a cael pris am wneud y gwaith. Nodwyd byddai cyfarfod ar y safle yn fanteisiol

**798. Ceisiadau Cynllunio – am fwy o fanylion am y ceisiadau yma, dilynwch y linc yma ble gellir chwilio am y cais drwy ddyfynnu 'Rhif y cais'. [https://amg.gwynedd.llyw.cymru/planning/index.html?fa=search](https://amg.gwynedd.llyw.cymru/planning/index.html?fa=search)**

a) **Rhif y Cais:** C21/0356/23/DT

**Math o Gais:** Cais Deiliaid Tŷ

**Bwriad:** Estyniadau deulawr ar y talcen

**Ymgeisydd:** Mr Kevin Pritchard

**Cyfeiriad:** 48 Nant Y Glyn, Llanrug, Caernarfon, LL55 4AH

**Cyfeirnod Grid:** 253775.93, 363434.04

**Ward:** Llanrug

**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynwyd:** Dim gwrthwynebiad

b) **Rhif y Cais:** C21/0325/23/LL

**Math o Gais:** Cais Llawn

**Bwriad:** Gosod pwmp gwresogi a phibelli tanddaearol cysylltiedig

**Ymgeisydd:** Mr Gareth Davies

**Cyfeiriad:** Bryn Yr Eryr Ffordd Bryngwyn, Llanrug, Caernarfon, LL55 4AP

**Cyfeirnod Grid:** 254067.22, 363020.76

**Ward:** Cwm y Glo

**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynwyd:** Dim gwrthwynebiad

c) **Rhif y Cais:** C21/0324/23/LL

**Math o Gais:** Cais Llawn

**Bwriad:** Gosod pwmp gwresogi tanddaearol ynghyd a dyfrdyllau cysylltiedig/

**Ymgeisydd:** Mr Gareth Davies

**Cyfeiriad:** Llanrug Outdoor Education Centre Ffordd Bryngwyn, Llanrug, Caernarfon, LL55 4AP

**Cyfeirnod Grid:** 254032.04, 363076.22

**Ward:** Cwm y Glo

**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynwyd:** Dim gwrthwynebiad

d) **Rhif y Cais:** C21/0313/23/DT

**Math o Gais:** Cais Deiliaid Tŷ

**Bwriad:** Estyniad un llawr yn y cefn

**Ymgeisydd:** Aled Evans

**Cyfeiriad:** Awelfryn Nant Y Glyn, Llanrug, Caernarfon, LL55 4AH

**Cyfeirnod Grid:** 253638.31, 363483.03

**Ward:** Llanrug

**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynwyd:** Dim gwrthwynebiad

e) **Rhif y Cais:** C21/0296/23/DT

**Math o Gais:** Cais Deiliaid Tŷ

**Bwriad:** Dymchwel y modurdy/gweithdy presennol a chodi modurdy/gweithdy a defnydd atodol i'r tŷ ar y llawr cyntaf

**Ymgeisydd:** Mr Edward Bellini

**Cyfeiriad:** Eithin Duon, Cwm Y Glo, Caernarfon, LL55 4DA

**Cyfeirnod Grid:** 254448.62, 363164.29

**Ward:** Cwm y Glo

**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynwyd:** Dim gwrthwynebiad

f) **Rhif y Cais:** C21/0288/23/DT

**Math o Gais:** Cais Deiliaid Tŷ

**Bwriad:** Cais ar gyfer codi estyniad unllawr cefn gyda ardal teras ar y to, estyniad to canopi i gefn y llawr cyntaf er mwyn creu mynediad newydd ynghyd a newidiadau i'r eiddo

**Ymgeisydd:** Mr Martyn Green

**Cyfeiriad:** Foelas, Cwm Y Glo, Caernarfon, LL55 4DU

**Cyfeirnod Grid:** 254792.19, 362530.12

**Ward:** Cwm y Glo

**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynwyd:** Dim gwrthwynebiad

g) **Rhif y Cais:** C21/0270/23/DT

**Math o Gais:** Cais Deiliaid Tŷ

**Bwriad:** Estyniad un llawr i gefn y ty ac adeiladwaith dormer i'r to cefn.

**Ymgeisydd:** Lyndsey a Gavin Thomas a Parry

**Cyfeiriad:** 1, Tai Hermon, Llanrug, Caernarfon, LL55 4PE

**Cyfeirnod Grid:** 252990.87, 363384.81

**Ward:** Llanrug

**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynwyd:** Dim gwrthwynebiad

h) **Rhif y Cais:** C21/0246/23/LL

**Math o Gais:** Cais Llawn

**Bwriad:** Codi tŷ deulawr a mynedfa newydd

**Ymgeisydd:** Mr and Mrs B Griffiths

**Cyfeiriad:** Tir Gyferbyn A Treflan, Rhes Rhythallt, Llanrug, Caernarfon, LL55 4AR

**Cyfeirnod Grid:** 254216.25, 363342.53

**Ward:** Llanrug

**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynwyd:** Dim gwrthwynebiad

i) **Rhif y Cais:** C21/0268/23/DT

**Math o Gais:** Cais Deiliaid Tŷ

**Bwriad:** Cais ar gyfer dymchwel ports presennol a chodi estyniad unllawr ar ochr yr eiddo

**Ymgeisydd:** Mr and Mrs R Evans

**Cyfeiriad:** 4 Glanffynnon, Llanrug, Caernarfon, LL55 4PR

**Cyfeirnod Grid:** 253523.34, 363294.09

**Ward:** Llanrug

**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynwyd:** Dim gwrthwynebiad